**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Dinas a Sir Abertawe (ac eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad archwilio: 3 – 7 Tachwedd 2014
Ymweliad dilynol cyntaf: 4 – 5 Rhagfyr 2018

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 15 – 16 Tachwedd 2023

(*) Nid yw'r camau gweithredu a godwyd yn yr archwiliad mewn perthynas â bwyd anifeiliaid wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol newydd yng Nghymru ym mis Ebrill 2015.

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni (yn flaenorol) | Cynnydd pellach hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.36 (i) Sicrhau y caiff Cynlluniau Gorfodi Cyfraith Bwyd y dyfodol mewn perthynas â *safonau bwyd* eu datblygu’n llwyr unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn darparu manylion mewn perthynas â chostau gweithredu’r gwasanaeth yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.<br><br>Sicrhau bod ffigurau sy’n ymwneud â chyfanswm nifer y sefydliadau bwyd a nifer yr ymyriadau safonau bwyd sydd ar y gweill yn ôl categori risg yn gywir mewn cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol. Sicrhau bod yr asesiad o adnoddau sy’n ofynnol yn erbyn y rhai sydd ar gael yn seiliedig ar wybodaeth gyfoes a chywir sy’n cwmpasu’r holl weithgareddau gwaith safonau bwyd. | Gwybodaeth ychwanegol am gostau gwasanaeth wedi’i darparu.<br><br>Ffigur cyffredinol ar gyfer yr adnoddau gofynnol wedi’i ddarparu. | Mae angen nodi’n gywir gyfanswm nifer y sefydliadau safonau bwyd a chyfanswm nifer y sefydliadau heb sgôr y mae ymyriad yn ofynnol ar eu cyfer, gan gynnwys safleoedd y bwriedir i’r naill dîm neu’r llall fynd i’r afael â nhw.<br><br>Dylid darparu dadansoddiad o’r adnoddau angenrheidiol gan sicrhau ei fod yn amcangyfrif y galw o bob gweithgaredd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 3.36 (ii) Cynnal adolygiad perfformiad blynyddol o *safonau bwyd* i'w gymeradwyo gan yr aelod fforwm perthnasol, neu'r uwch-swyddog perthnasol. [Y Safon – 3.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod adolygiadau'r dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. | Roedd adran adolygu wedi'i darparu, gan gynnwys perfformiad y gweithgareddau arolygu. | Nodwch yn glir nifer yr arolygiadau sydd heb eu cwblhau a gariwyd drosodd i'r flwyddyn gynllunio newydd ar gyfer pob categori a hefyd ewch ati i gynnwys adolygiad o weithgareddau arolygu nad ydynt yn rhai sylfaenol fel samplu a cheisiadau am wasanaeth. |
| 3.36 (iii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiaeth o ran cyflawni trefniadau arfaethedig ar gyfer *safonau bwyd* mewn Cynlluniau Gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | Glas | Sicrhau bod yr holl amrywiadau'n cael eu nodi a'u hegluro yn ystod yr adolygiad cyflenwi gwasanaeth blynyddol, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas ag ymyriadau safonau bwyd categori B ac C sydd ar y gweill o fewn y flwyddyn ac arolygu sefydliadau newydd a rhai heb sgôr. | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau yr eir i'r afael â'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 5.12 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymhwysedd. Adolygu ac, os oes angen, diwygio awdurdodiadau a dyletswyddau'r ddau swyddog *safonau bwyd* nad oeddent yn gallu dangos bod ganddynt y cymwysterau gofynnol na'u bod wedi mynychu hyfforddiant sy'n gyson â'u dyletswyddau. Adolygu a diwygio *awdurdodiadau* hylendid bwyd, *safonau bwyd* a swyddogion bwyd anifeiliaid i sicrhau y caiff yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ei chynnwys. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (ii) Cadw cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion *safonau bwyd*, yn unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 6.10 (i) Sicrhau na fydd offer yn cael eu defnyddio mwyach pan ganfyddir eu bod wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau goddefiant a nodir yng ngweithdrefn yr awdurdod [Y Safon – 6.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.24 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau o sefydliadau bwyd eu cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg isel, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. Sicrhau bod yr holl sefydliadau heb eu sgorio yn cael arolygiad cychwynnol i bennu eu sgôr ymyrryd. | Ar y cyfan, roedd ymyriadau yng nghategorïau A-B (risg uchel) yn cael eu cynnal ar yr amlder cywir. | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau categori C (risg uchel), D (risg ganolig) ac E (risg isel), yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir.<br><br>Sicrhau bod yr holl sefydliadau heb eu sgorio yn cael arolygiad cychwynnol i bennu eu sgôr ymyrryd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.24 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod camau ar waith er mwyn gallu tynnu sylw at broblemau lle bo'n briodol.<br><br>Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnesau'n cael eu cadw'n gyson, gan gynnwys ym mhob Pwynt Rheoli Critigol (CCP). | | Cwblhawyd |
| 7.24 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cael ei ddarganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod asesiadau nodau iechyd/adnabod ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn yn y sefydliadau cymeradwy a chofrestredig yn cael eu cynnal yn gyson. Sicrhau bod asesiadau hefyd yn cael eu cynnal yn gyson ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio. | Asesiadau'n cael eu cynnal mewn safleoedd cofrestredig. Aide-mémoire wedi'i addasu i gynnwys asesiadau o nodau iechyd / olrheiniadwyedd sydd ar ddod | Gweithredu'r defnydd o aide-mémoire newydd ar gyfer cymeradwyo, a hynny er mwyn cynnwys nodau iechyd / olrheiniadwyedd sydd ar ddod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | mewn safleoedd cymeradwy. | |
| 7.24 (iv) Datblygu ei weithdrefnau ymhellach mewn perthynas ag arolygiadau rhannol a chynnal arolygiadau yn gynt. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.41 (i) Sgorio sefydliadau bwyd yn ôl risg yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau eu cyflawni ar amlder nad yw'n llai na'r hyn a nodir yn y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg isel, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. Sicrhau bod yr holl sefydliadau heb eu sgorio yn cael arolygiad cychwynnol i bennu eu sgôr ymyrryd. | Ar y cyfan, roedd ymyriadau yng nghategorïau A (risg uchel) yn cael eu cynnal ar yr amlder cywir. | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau categori B (risg ganolig) ac C (risg isel), yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. Sicrhau bod yr holl sefydliadau heb eu sgorio yn cael arolygiad cychwynnol i bennu eu sgôr ymyrryd, ni waeth i ba dîm y byddant yn cael eu dyrannu. |
| 7.41 (ii) Cynnal Strategaethau Gorfodi Amgen (AES) yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | Sicrhau bod busnesau a ddewiswyd ar gyfer AES yn gymwys a bod gwybodaeth yn cael ei chasglu i ddarparu gwyliadwriaeth ar weithgareddau busnes. | Methu cael ei asesu ar yr achlysur hwn. | Sicrhau bod busnesau a ddewiswyd ar gyfer AES yn gymwys a bod gwybodaeth yn cael ei chasglu i ddarparu gwyliadwriaeth ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau bod dyddiadau ymyriadau ond yn cael eu diweddaru pan fo ymyriad AES wedi'i gynnal ac na roddir sgoriau risg. | | weithgareddau busnes. Sicrhau bod dyddiadau ymyriadau ond yn cael eu diweddaru pan fo ymyriad AES wedi'i gynnal ac na roddir sgoriau risg. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.41 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn unol â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith. [Y Safon – 7.3] | Glas | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â labelu bwyd, cyfansoddiad bwyd a'r gallu i olrhain bwyd. | | Cwblhawyd |
| 7.41 (iv) Sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4] | Glas | Diwygio gweithdrefn ddrafft yr AES i sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth briodol am gymhwysedd sefydliadau dethol, gwyliadwriaeth o weithgareddau busnes ac addasu sgoriau risg a dyddiadau dyledus. | | Cwblhawyd |
| 7.41 (v) Sicrhau y caiff arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn rhwystro gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Sicrhau bod arsylwadau o asesiadau cydymffurfiaeth yn adlewyrchu'n gyson natur pob asesiad a wneir. | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8.7 (i) Diwygio ei weithdrefn gwyno o ran safonau bwyd i gynnwys cyfeiriad at gŵynion ynghylch bwyd sy'n dod o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a thrydydd gwledydd. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 8.7 (ii) Ymchwilio i gŵynion ynghylch safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod, a chymryd camau priodol mewn ymateb i gŵynion o ran safonau bwyd yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 8.2 ac 8.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.17 (i) Diwygio ei weithdrefn samplu safonau bwyd gan sicrhau ei bod i) yn cynnwys trefniadau ar gyfer caffael neu brynu samplau, parhad mewn tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau tra byddant o dan ei reolaeth a ii) yn cydymffurfio â chanllawiau | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 12.5] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 12.17 (ii) Cymryd camau priodol yn unol â'i weithdrefn ei hun pan fo canlyniadau samplu microbiolegol yn ffiniol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Sicrhau y cymerir camau priodol yn gyson mewn perthynas â'r holl ganlyniadau samplu. | | Cwblhawyd |
| 13.7 (i) Sicrhau bod ei weithdrefn ar gyfer ymchwilio i glefydau a gludir gan fwyd yn cael ei gweithredu ym mhob achos. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 14.8 (i) Rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw broblem ehangach o ran diogelwch bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 14.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.19 (i) Adolygu a diwygio ei Bolisi Gorfodi er mwyn cynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio hysbysiadau statudol. Sicrhau y caiff y Polisi ei gymeradwyo gan yr aelod fforwm neu'r uwch-reolwr perthnasol, a'i roi ar waith gan ystyried camau gorfodi graddedig mewn achos o ddiffyg cydymffurfio sylweddol a/neu barhaus. [Y Safon – 15.1] | Glas | Cymeradwyo'r polisi gorfodi diwygiedig. | | Cwblhawyd |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau gorfodi yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| 15.19 (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer Hysbysiadau Gwella safonau bwyd a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.19 (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi hylendid bwyd yn cael ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2 ac 15.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 15.19 (iv) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Rhaid cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 16.7 (i) Cofnodi gwyriadau oddi wrth weithdrefnau sefydledig, gan nodi'r rhesymau. [Y Safon – 16.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â llythyrau adroddiadau a mesurau diogelu yn sgil archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | | Cwblhawyd |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 16.13 (i) Sicrhau bod y ffurflenni adrodd ar ôl arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau ar ôl ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Glas | Sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys manylion cyswllt yr uwch-swyddog, gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio. Sicrhau bod adroddiadau'n gyson yn cynnwys y camau gweithredu i'w cymryd gan yr awdurdod. | | Cwblhawyd |
| 17.5 (i) Cofnodi'r holl gŵynion a geir a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddynt [Y Safon – 17.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 19.15 (i) Rhoi ei weithdrefnau monitro mewnol ar waith yn llwyr ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, a gwirio bod y | Gwyrdd | Sicrhau bod y gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu gweithredu'n llawn i wella | Rhywfaint o waith monitro mewn perthynas ag ymyriadau | Sicrhau bod gwaith monitro arolygiadau a cheisiadau gwasanaeth yn parhau ac yn cael ei |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog, a'i bolisïau a'i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 ac 19.2] | | asesiad ansoddol yr ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd. | hylendid a safonau bwyd a cheisiadau am wasanaeth. | ehangu i gynnwys yr holl swyddogion, sampl mwy o faint, gwiriadau ansawdd ar weithgarwch samplu dilynol, ymchwiliadau i glefydau heintus a hysbysiadau gorfodi ffurfiol. Cynnal gwiriadau manwl o'r gronfa ddata hefyd. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni (yn flaenorol)** | **Cynnydd pellach hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 19.15 (ii) Cynnal a chadw cofnodion monitro mewnol am o leiaf ddwy flynedd [Y Safon – 19.3] | Gwyrdd | Cynnal cofnodion o fonitro mewnol sy'n nodi'r hyn a gafodd ei fonitro, canlyniad pob asesiad a'r adborth a roddwyd i swyddogion. | | Sicrhau bod cofnodion ar gael i ddangos y gwiriadau monitro uchod. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **33** |
| **Cwblhawyd** | **25** |
| **Cynnydd da** | **5** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **2** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **1** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **8** |